## Fforwm Arfer Da ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth i blant ag anghenion cymhleth - Hysbysiad Preifatrwydd mewn perthynas â Chyfarfodydd

### Cefndir

Mae'r tîm Gwella Canlyniadau i Blant yn Llywodraeth Cymru yn hwyluso cyfarfodydd bob deufis (drwy TEAMS) o'r Fforwm Arfer Da sy'n gweithio i ddatblygu'r ddarpariaeth i blant ag anghenion cymhleth, fel y nodir yn ei gylch gorchwyl sy'n cael ei rannu ag aelodau'r fforwm.

Mae mynychwyr y fforwm yn rhoi gwybodaeth bersonol (enw a chyfeiriad e-bost) i Lywodraeth Cymru wrth iddynt gofrestru eu diddordeb drwy e-bostio: ana.laing@llyw.cymru.

### Beth ydyn ni'n ei wneud gyda'ch gwybodaeth?

Bydd yr wybodaeth bersonol (manylion cyswllt) a ddarperir gennych yn cael ei chadw er mwyn eich cynnwys mewn gwahoddiadau i gyfarfodydd y fforwm ac e-byst a anfonir mewn perthynas â'i weithgarwch.

Bydd eich manylion cyswllt yn cael eu defnyddio i anfon dolen TEAMS atoch ychydig ddyddiau cyn y cyfarfod. Ni fydd yn bosibl i Lywodraeth Cymru na chynrychiolwyr eraill weld unrhyw wybodaeth bersonol drwy TEAMS, ac eithrio'r enw rydych wedi ei ddewis ar gyfer cael mynediad at TEAMS.

Pan fyddwch yn cofrestru eich diddordeb yn y fforwm, byddwch yn cael cyfle hefyd i ddweud wrthym a oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch er mwyn ichi allu cymryd rhan mewn cyfarfodydd. Os ydych am ofyn am unrhyw addasiadau rhesymol ar gyfer cymryd rhan mewn cyfarfodydd a'r fforwm, yna bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio eich enw a'ch cyfeiriad e-bost i ohebu â chi.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu recordio cyfarfodydd fforwm at ddibenion cymryd nodiadau yn unig. Bydd hyn yn cael ei esbonio cyn i'r recordiad ddechrau, a gofynnir i'r cyfranogwyr a oes ganddynt wrthwynebiad i'r bwriad i recordio'r cyfarfod.

### Beth yw'r sail gyfreithiol dros ddefnyddio'ch data?

**Cyfarfodydd y Fforwm Arfer Da - Hysbysiad Preifatrwydd**

Llywodraeth Cymru (‘ni’) fydd y rheolydd data ar gyfer y data personol yr ydych yn eu darparu er mwyn cymryd rhan yn y fforwm, a byddwn yn eu prosesu fel rhan o'n tasg gyhoeddus ac o dan yr awdurdod swyddogol a roddwyd inni ar gyfer gwneud gwaith gweinyddol y fforwm.

**Am ba hyd fyddwn ni'n cadw eich gwybodaeth?**

Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw manylion cyswllt cyfranogwyr, ac unrhyw wybodaeth a anfonir atom gan gyfranogwyr yn gofyn am addasiadau rhesymol, tra bo'r fforwm mewn bodolaeth neu cyn hynny os bydd cyfranogwr yn gofyn am gael ei dynnu oddi ar y rhestr gylchrediad.

Ni fydd unrhyw recordiad o gyfarfodydd yn cael ei rannu y tu allan i Lywodraeth Cymru, a bydd y fideo a’r trawsgrifiad yn cael eu dileu o fewn mis i'r digwyddiad.

**Eich hawliau mewn perthynas â'ch gwybodaeth**

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawliau canlynol:

- i gael mynediad at y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cadw amdanoch;
- i’w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu atal prosesu'r data (mewn amgylchiadau penodol)
- i ofyn inni ‘ddileu’ data (mewn amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol: Information Commissioner’s Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

**Rhagor o wybodaeth**

Am ragor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r defnydd ohoni, neu os ydych chi'n dymuno arfer eich hawliau o dan GDPR UK, gweler y manylion cyswllt isod:

Gwella Canlyniadau i Blant
Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: plantsynderbyngofal@llyw.cymru

I gael gwybod mwy am eich hawliau mewn perthynas â gwybodaeth, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data

**Cyfarfodydd y Fforwm Arfer Da - Hysbysiad Preifatrwydd**

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Swyddogdiogeludata@llyw.cymru